

WILIAM LL N (1534 neu 1535 - 1580), 'bardd o L n ' yn ôl cyfeiriadau cyfoes ato;

Enw: Wiliam Ll n
Dyddiad geni: 1534 neu 1535
Dyddiad marw: 1580
Plentyn: Jane Llyn
Plentyn: Richard Llyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: 'bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Brinley Rees

Fel [Simwnt Vychan](#), [Wiliam Cynwal](#), a [Siôn Tudur](#), bu'n ddisgybl i [Ruffudd Hiraethog](#) a cheir ei enw hefyd fel un o'r pedwar bardd a raddiwyd yn benceirddiaid yn eisteddfod Caerwys yn 1568. Gellir tybied mai ym Meirion a Maldwyn, sir Ddinbych, a Sir Gaernarfon, yr oedd ei noddwyr luosocaf, ond hebryngodd glod i foneddigion cyn belled oddi wrth ei gilydd â theuluoedd Caehywel yn Sir Amwythig, [Penmynydd](#) ym Môn, [Madryn](#) a [Bodwrdda](#) yn Ll n, y [Gelli Aur](#) ac Abermarlais yn nyffryn Tywi, ac Aber-brân yn sir Frycheiniog. Canodd foliant i amryw glerigwyr hefyd, yn eu plith [Wiliam Hughes](#), esgob Llanelwy, a [Richard Davies](#), esgob Tyddewi, y dywed iddo ymweld â'i blas yn Abergwili. Yn ei farwnad i'w gyfaill Owain ap Gwilym, y bardd a'r clerigwr o Dal-y-llyn ym Meirion, y mae'n sôn am gyd-deithio, ill dau, i'r deau. Yn ôl nodyn a sgrifennwyd mewn llawysgrif o tua hanner olaf yr 17eg ganrif yr oedd Wiliam Ll n yntau'n glerigwr, ond prin y gall hynny fod yn wir. Yn ei ewyllys y mae'n gadael ei d yn nhref Croesoswallt i'w wraig ac yn dymuno cael ei gladdu yng nghladdfa'r lle hwnnw. Yng nghofrestr eglwys y plwyf yno ceir cofnodion nid yn unig am farw'r bardd ei hun ar y dydd olaf o Awst 1580 ond hefyd am fedyddio'i fab Richard yn 1569, am farw'i ferch Jane yn 1585, a marw ' Richard Llyn Miller ' yn 1587. Cesglir felly mai yng Nghroesoswallt yr oedd ei gartref yn ystod un mlynedd ar ddeg olaf ei oes o leiaf. Bu [Rhys Cain](#) a [Morris Kyffin](#) yn ddisgyblion iddo ac i [Rys](#) y gadawodd ei lyfrau. Canwyd marwnad iddo gan [Siôn Phylip](#) a hefyd gan [Rys Cain](#), a ddywed iddo farw cyn cyrraedd ei 46 mlwydd.

Copiwyd dros hanner y cerddi sydd yng nghasgliad [J. C. Morrice](#) o'i farddoniaeth o lawysgrif (Phillipps 21559 yn Llyfrgell Rydd Caerdydd) y credir ei bod yn llaw'r bardd ei hun. Cynhwysir yn y casgliad 16 awdl, dros 50 o gywyddau mawl a marwnad, dau gywydd yn erfyn cymod â noddwyr a oedd wedi digio wrtho, un cywydd ymryson ag [Owain Gwynedd](#) ynghylch y croeso a gawsai'r 'llwynog o L n ' yng Nghaergynyr, rhyw wyth o gywyddau gofyn, ac ychydig gywyddau serch ac englynion. Dengys ei awdlau a'i gywyddau mawl a'i gywyddau dyfalu ei fod yn un o bencampwyr y gerdd draddodiadol, ond ei farwnadau yw ei gerddi enwocaf - yn enwedig y cywyddau gorchestol a ganodd i [Siôn Brwynog](#) ('y gwr mwya gerais'), i'w hen athro [Gruffudd Hiraethog](#), ac i Owain ap Gwilym, beirdd bob un. O'r tri chywydd hyn, sydd ymhlith marwnadau gorau'r iaith, y mae'r ddau olaf y cyfeiriwyd atynt, a hefyd ei gywydd marwnad i Ruffudd ap Tomas, Madryn, ar ffurf ymddiddan rhwng yr awdur a'r g r marw, dull a oedd yn newydd yn y cyfnod hwnnw. Ar wahân i'w farddoniaeth y mae ar glawr, yn y llawysgrifau, achau ac arf-beisiau yn llaw'r bardd a geirfa o'i waith.

Awdur

Brinley Rees, (2001)

Ffynonellau

Barddoniaeth Wiliam Llyn (1908) (gol. J. C. Morrice), 1908

Reports on Manuscripts in the Welsh Language (Historical Manuscripts Commission 1898–1910)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Wiliam Ll n](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18340549](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

